

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A458
(Broad Street a High Street, Y
Trallwng, Powys) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2019

The A458 Trunk Road (Broad
Street and High Street, Welshpool,
Powys) (Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2019

Gwnaed 18 Medi 2019
Yn dod i rym 28 Medi 2019

Made 18 September 2019
Coming into force 28 September 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd bod Gŵyl 1940 au y Trallwng yn cael ei chynnal ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A458 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited due to the Welshpool 1940's Festival being held on or near the roads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Broad Street a High Street, Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 28 Medi 2019.

1. The title of this Order is the A458 Trunk Road (Broad Street and High Street, Welshpool, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2019 and it comes into force on 28 September 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"closure period" ("*y cyfnod cau*") means that period commencing at 08:00 hours on 28 September 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

(1) 1984 p. 27; Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 27), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994, section 1(1). By virtue of S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.27), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos; neu
- (iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan swyddog awdurdodedig i gefnogi Digwyddiad Gŵyl 1940 au y Trallwng ac am resymau diogelwch mewn cysylltiad â'r digwyddiad;

ystyr "y cyfnod cau" ("*closure period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 28 Medi 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau (Broad Street a High Street) sy'n ymestyn o gyffordd Broad Street â Church Street, Berriew Street a Severn Street hyd at gyffordd High Street â Jehu Road.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 2 ddiwrnod ar y mwyaf f.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Medi 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (i) any vehicle being used by the emergency services;
- (ii) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, a length of road concerned; or
- (iii) any vehicle being used by an authorised official in support of and for safety reasons in connection with the Welshpool 1940's Festival Event.

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A458 Shrewsbury to Dolgellau trunk road (Broad Street and High Street) that extends from the junction of Broad Street with Church Street, Berriew Street and Severn Street to the junction of High Street with Jehu Road.

Prohibition

3. No person may, during the closure period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 2 days.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated 18 September 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458
(BROAD STREET A HIGH STREET, Y
TRALLWNG, POWYS) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn hwyluso cynnal Gŵyl 1940 au y Trallwng ar gefnffordd yr A458 neu gerllaw iddi yn y Trallwng, Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A458 o'r enw Broad Street a High Street sy'n ymestyn o gyffordd Broad Street â Church Street, Berriew Street a Severn Street hyd at gyffordd High Street â Jehu Road.

Y llwybr arall fydd teithio tua'r de-ddwyrain ar y B4381 Severn Street a Severn Road i Gylchfan Old Station yr A483, mynd tua'r gogledd ar Smithfield Road, tua'r gorllewin ar Mill Lane, i'r de-orllewin ar yr A458 Church Street, yna i'r gorllewin ar y B4381 Brook Street i Gylchfan Raven ac yna tua'r dwyrain ar hyd y darn o'r A458 o'r enw Raven Street/Mount Street/High Street. Bydd trefnwyr y digwyddiad yn rheoli pob cerbyd sy'n dymuno mynd i eiddo ar New Street a Park Lane neu oddi yno.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol rhwng 08:00 o'r gloch a 17:00 o'r gloch ar 28 Medi a 29 Medi 2019.

Bydd arwyddion yn cael eu harddangos i roi hysbysiad ymlaen llaw cyn y digwyddiad.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A458 TRUNK ROAD (BROAD STREET
AND HIGH STREET, WELSHPOOL, POWYS)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to facilitate the holding of the Welshpool 1940's Festival on or near the A458 trunk road at Welshpool, Powys.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), from proceeding on the length of the A458 trunk road known as Broad Street and High Street that extends from the junction of Broad Street with Church Street, Berriew Street and Severn Street to the junction of High Street with Jehu Road.

The alternative route will be to travel south-eastbound along the B4381 Severn Street and Severn Road to the A483 Old Station Roundabout, proceed northbound on Smithfield Road, westbound on Mill Lane, south-westbound on the A458 Church Street, then westbound on the B4381 Brook Street to Raven Roundabout and eastbound along the length of the A458 known as Raven Street/Mount Street/High Street. All vehicles wishing to access or egress properties on New Street and Park Lane will be managed and controlled by event organisers.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will operate between 08:00 hours and 17:00 hours on both 28 September and 29 September 2019.

Advance notice signs will be displayed before the event.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government